


GROW YOUR OWN POTATOES



Coginio Tatws

Gwers 14: Gwneud salad tatws a datblygu sgiliau coginio

Bydd y plant yn:

- Dysgu sut i wneud salad tatws iach ac yn datblygu'u sgiliau coginio.
- Cyny sesiwn hon bydd angen ichi drefnu'r offer a'r cynhwysion.
Hefyd, bydd angen ichi osod y stafell ddosbarth a threfnu'r plant fel bod y sesiwn yn ddiogel.
Bydd angen y rysâit **Salad Tatws** arnoch.

I gael mwy o wybodaeth ar drefnu sesiynau coginio mewn ysgolion cynradd ewch i www.foodafactoflife.org.uk ar gyfer y modiwlau coginio 5-8 neu 8-11 oed.

Cyflwyniad

Esboniwrch i'r plant y byddan nhw'n gwneud eu salad tatws eu hunain.
Cyn y wers, bydd angen ichi gael y cynhwysion a'r offer yn barod a gosod y stafell ddosbarth.
Dilynwch y rysâit; mae'r pwyntiau bwled isod yn darparu crynodeb o'r ffordd y gallech chi drefnu'r sesiwn:

- Cyflwynwch y rysâit a'r cynhwysion;
- Arddangoswch y sgiliau a ddefnyddir, e.e. torri'n ddiogel gyda chyllell, defnyddio siswrn;
- Siaradwch â'r plant am yr hyn fyddan nhw'n ei wneud, e.e. mi allent weithio mewn grwpiau bach i gynhyrchu'r ddysgl, gyda phob un yn gwneud tasg wahanol.

Tasg

5-11 Oed

Gwnewch yn siŵr bod y plant yn barod i goginio.
Dylech sicrhau eu bod wedi clymu gwallt hir yn ôl; wedi rhoio'u llewys i fyny; yn gwisgo ffedog ac wedi golchi'u dwylo.
Gwnewch yn siŵr eu bod yn deall yn glir beth fydd pob un ohonynt yn ei wneud.
Mae'n help os all y plant weithio mewn paru fel bod un plentyn yn gallu gwneud yn siŵr bod y llall yn gweithio'n ddiogel.
Gadewch i'r plant wneud y salad tatws.
Stopiwch y plant yn ystod y wers i ofyn sut hwyl maen nhw'n cael arni, ac i rannu unrhyw wybodaeth bwysig.

Crynodeb

Gwerthuswch y dysglau gyda'i gilydd fel dosbarth. Anogwch y plant i roi eu sylwadau ar y canlynol:

- Ymddangosiad
- Ansawdd
- Blas

Gofynnwch i'r plant a fydden nhw'n gwneud unrhyw beth yn wahanol petaen nhw'n dilyn y rysâit eto.
Sut mae'n cymharu â'u cynllun (Gwers 11)?

Awgrymiadau ...

- Defnyddiwch y tatws rydych wedi'u tyfu i wneud y ddysgl
- Rhowch gynnig ar **ryseitiau tatws** eraill:
Teisennau tatws pob bach / Salad Tatws Newydd a Radis
Salad Hafaidd Cyw Iâr, Oren a Thatws / Creaduriaid Tatws Pitsa!
Ewch i'r wefan isod i gael y ryseitiau.

